Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Labordy Deintyddol Threeways, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80364-926-9

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom

2. Crynodeb o'r arolygiad

3. Yr hyn a ganfuom

    - Ansawdd profiad y claf

    - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

    - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C – Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Labordy Deintyddol Threeways ar 18 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae’r adroddiad (llawn) hwn wedi’i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae’n disgrifio’r holl ganfyddiadau sy’n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Labordy Deintyddol Threeways wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur adborth fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn rhagorol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella’r canlynol:
- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd tystysgrifau AGIC a thaflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog i’r cleifion.
- Roedd gwybodaeth am orchuddion wyneb a hylif diheintio dwylo wedi'i harddangos yn glir yn y man aros.

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y clinig yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus, ac roedd y lefelau glanweithdra a welwyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr holiaduron cleifion a dderbyniwyd.

Roedd asesiad risg diogelwch tân ac asesiad risg amgylcheddol ar waith, ac roedd y ddau yn gyflawn ac yn gyfredol. Gwelsom hefyd dystiolaeth o bolisïau a hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol i’r staff, yn ogystal â gweithdrefnau sydd ar waith i ymdrin ag argyfyngau. Roedd gwiriadau ar offer brys hefyd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella’r canlynol:
- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Mae'r lleoliad yn lân ac yn daclus ac yn cael ei gadw mewn cyflwr da.
- Posteri iechyd a diogelwch a gwybodaeth rhoi'r gorau i smygu wedi'u harddangos yn y man aros.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd gan y practis amrywiol bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ac roedd pob un ohonynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
Gwelsom dystiolaeth o staff yn cydymffurfio'n llawn â gofynion hyfforddi gorfodol. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yr holl staff yn gyfredol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o lywodraethu da iawn ar y cyfan, ac agweddau proffesiynol gan y staff.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Er na chawsom unrhyw un o'n holiaduron yn ôl, cawsom 18 o holiaduron adborth y practis ei hun.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

*"Gofal rhagorol"*
*"Gwasanaeth gwych"*

### Cadw'n iach

**Hybu, diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom y staff yn gwisgo gorchuddion wyneb yn y practis. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod masgiau yn orfodol i'r cleifion, oni bai eu bod wedi'u heithrio'n feddygol. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael i'r cleifion a'r staff ac roedd gwybodaeth COVID-19 wedi'i harddangos yn y man aros.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod staff y practis yn gwrando arnynt a hefyd yn siarad â nhw am y gofal dannedd gosod yr oedd ei angen arnynt. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron hefyd fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am gadw dannedd gosod yn lân a'r geg yn iach.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan ac roedd yr oriau agor a rhif ffôn brys wedi'u harddangos ar y drws ffrynt.

### Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gwelsom dystiolaeth bod y daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd y tystysgrifau AGIC a arddangoswyd hefyd yn ddwyieithog. Dywedodd y staff wrthym nad oedd un o'u cleifion erioed wedi gofyn am gael siarad yn Gymraeg neu mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg. Ategir hyn gan yr ymatebion i'r holiaduron

adborth cleifion. Pe bai angen cyfieithiad ar glaf, byddai’r staff yn hapus iddo ddod â rhywun i’w gynorthwyo.

Dywedodd y staff wrthym hefyd mai anaml y mae mwy nag un claf yn y man aros, oherwydd nifer eu cleifion, felly gellir cynnal cyfrinachedd cleifion yn hawdd. Fodd bynnag, bydd y staff bob amser yn cynnal sgyrsiau preifat gyda chleifion yn yr ystafelloedd triniaeth i ffwrdd o'r dderbynfa / man aros. Gellid defnyddio'r ystafell hon, neu ardal y staff hefyd, ar gyfer sgyrsiau ffôn sensitif neu gyfrinachol.

**Gwybodaeth i gleifion**
Gwelsom dystiolaeth o ystod o wybodaeth am y cleifion ar gael yn y man aros. Roedd hyn yn cynnwys copïau o'r daflen gwybodaeth i gleifion, taflenni rhoi'r gorau i smygu, rhestr brisiau'r practis a manylion cyswllt AGIC.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**
Dywedodd rheolwr y practis wrthym, oherwydd y niferoedd isel o gleifion bob dydd, nad ydynt erioed wedi cael problemau gydag oedi mewn apwyntiadau.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth bod rhai mesurau amddiffyn rhag COVID-19 yn dal ar waith. Mae'r staff yn dal i wisgo masgiau yn y lleoliad, a dywedasant wrthym fod disgwyl i'r cleifion hefyd wisgo masgiau i fynychu apwyntiadau. Mae posteri gwybodaeth COVID-19 yn dal i gael eu harddangos yn y man aros a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw sy'n cael mynd i mewn i'r practis.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**
Yn ystod yr arolygiad, fe wnaethom gynnal adolygiad o gofnodion cleifion. Roedd pob un yn dangos tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac roeddent yn drylwyr ac yn gyfredol.

**Hawliau pobl**
Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith, ynghyd â nifer o bolisïau ategol eraill i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y practis.

**Gwrando a dysgu o adborth**
Roedd gwybodaeth am y broses gwyno wedi'i harddangos yn y man aros. Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, amserlenni ar gyfer ymateb, enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion, a manylion AGIC.

Dangoswyd y cofnod i ni lle byddai cwynion yn cael eu cofnodi, ond dywedodd y staff wrthym nad oes cwynion wedi'u gwneud hyd yn hyn. Mae'r practis hefyd yn anfon holiaduron at bob claf drwy'r post ar ôl eu triniaeth. Gwahoddir cleifion hefyd i roi adborth trwy ap ffôn.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Roedd mynediad i'r adeilad yn ddi-rwystr ac yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw un â chymhorthydd symudedd / cadair wthio fynd i mewn i'r adeilad. Y tu mewn, roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y man aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a welwyd bob dydd.

Roedd toiled y cleifion a thoiled y staff yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Ni nodwyd unrhyw broblemau ynglŷn â'r gwres, y goleuadau neu'r awyru ychwaith.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael yn y clinig ac roedd hyn wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar. Roedd gan y lleoliad asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith ac roedd y ddau aelod o staff wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelwch tân gorfodol. Dywedodd y staff wrthym fod y larymau tân yn cael eu profi'n fisol a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis. Gwelsom hefyd arwyddion 'allanfa dân' a 'dim smygu' clir yn cael eu harddangos.

Roedd posteri iechyd a diogelwch wedi'u harddangos yn y man aros, yn ogystal â'r dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol cyflawn a chyfredol ar gyfer y lleoliad.

**Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod gan y practis nifer o bolisïau ar waith ynglŷn â'i weithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys polisi hylendid dwylo, a threfniadau rheoli heintiau ar gyfer y clinig.

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Gwelsom dystiolaeth hefyd o storio a gwahanu gwastraff clinigol yn ddiogel ac yn briodol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys a bod systemau ar waith i ddangos tystiolaeth bod gwiriadau ar offer brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Ni chadwyd unrhyw feddyginiaethau ar y safle. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth frys.

Mae'r ddau dechnegydd deintyddol clinigol yn swyddogion cymorth cyntaf ac mae ganddynt hyfforddiant cyfredol. Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn cynnwys eitemau priodol a diweddar.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd ar gyfer y staff, a chadarnhaodd rheolwr y practis fod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd brys wedi'i drefnu ar gyfer y ddau aelod o staff ddau ddiwrnod ar ôl yr arolygiad.

### Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion. Nid oes unrhyw blant yn cael eu gweld na'u trin yn y practis, felly nid yw'r staff byth yn dod i gysylltiad ag unrhyw un o dan 18 oed. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

Mae gan y ddau dechnegydd deintyddol clinigol dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol a ddefnyddir yn y clinig yn ddiogel ac yn addas at y diben. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddi'r staff fod yr holl unigolion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau defnydd diogel o offer.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y practis bolisi atgyfeirio a threfniadau ar waith ar gyfer derbyn cleifion. Roedd y manylion hyn wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae gan y practis bolisi archwilio clinigol ar waith, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau clinigol cyfredol ac archwiliad cadw cofnodion cleifion.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y clinig bolisi diogelu data a chyfrinachedd staff ar waith. Canfuom fod cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel.

**Cadw cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion cleifion a oedd yn glir ac yn ddarllenadwy ac a oedd yn cael eu cadw i safon dda.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae tîm staff y lleoliad yn cynnwys dau dechnegydd deintyddol clinigol, y ddau ohonynt yn rheolwyr practis ar y cyd.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a’r daflen gwybodaeth i gleifion. Roedd y ddau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom adolygu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Dywedodd rheolwr y practis wrthym, gan mai dim ond dau aelod o staff sydd, fod y ddau ohonynt yn wyliadwrus wrth adolygu polisïau a gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y staff yn gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno yn achos unrhyw anafiadau difrifol.

## Gweithlu

Gwelsom dystiolaeth o gofrestriad y ddau aelod o staff gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contractau cyflogaeth, statws eu himiwnedd rhag hepatitis B, a’u gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y ddau yswiriant indemniad proffesiynol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon a nodwyd ar unwaith | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Labordy Deintyddol Threeways

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn** | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Labordy Deintyddol Threeways**

**Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella** | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â’r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**